

Dydd Mawrth 28<sup>ain</sup> Chwefror 2017

Annwyl Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe a'r Tîm Cymorth

Diolch am roi'r cyfle i mi ddarparu adborth ar y fersiwn ddrafft o'ch Asesiad Llesiant Lleol a anfonwyd i'r swyddfa yn Ionawr 2017.

Y peth cyntaf yr wyf am ei wneud yw gwneud yn glir fy mod i'n deall yn llwyr yr heriau yr ydych wedi eu hwynebu wrth ddatblygu'r asesiad y tro hwn, ac rwy'n llongyfarch eich tîm ar eu gwaith caled a'u hymdrechion.

Fy mhrif ffocws wrth ddarparu'r adborth hwn yw eich helpu i ystyried i ba raddau y bydd y gwaith a wnaed gennych hyd yn hyn yn eich helpu i bennu eich cydamcanion ac ymgymryd â chynllunio llesiant. I mi, y Byrddau Gwasanaethau Lleol sy'n rhoi un o'r cyfleoedd mwyaf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau yng Nghymru a llunio penderfyniadau ar y cyd a darparu gwasanaethau a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae eich asesiad chi yn rhan allweddol o hyn, ac er fy mod yn deall na fydd, o bosibl, yn ddarlun llawn ar yr adeg y byddwch yn ei gyhoeddi, y mae'n bwysig ei fod yn rhoi darlun clir a deallus o lesiant Abertawe a llesiant eich cymunedau, sy'n berthnasol yn awr ac i'r dyfodol. **Dylai eich asesiad eich galluogi i nodi'n glir yr heriau allweddol ar gyfer eich ardal a'ch cymunedau, gan ddatblygu cydamcanion sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn.**

Atodaf ddogfen sy'n rhoi adborth manwl ar eich asesiad drafft, a'r hyn y dylech ystyried adeiladu arno yn y tymor byr wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, ac yn nhermau asesu llesiant yn y dyfodol.

Yn ystod 2017-18, un o'ch tasgau allweddol fydd datblygu eich cydamcanion llesiant fel rhan o'ch Cynllun Llesiant. Mae'r ddeddfwriaeth yn gofyn eich bod yn ceisio cyngor gennyf ar sut mae cymryd camau i gyflawni eich amcanion yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy (pum dull o weithio).

Nodaf isod rai o'r pethau y byddaf yn chwilio amdanynt wrth i'm swyddfa barhau i weithio gyda chi. Yn fy marn i, mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) sydd wedi dangos eu bod eisoes yn rhoi sylw i'r pum dull o weithio mewn sefyllfa dda i ddatblygu amcanion a Chynlluniau Llesiant, a fydd yn fanteisiol i bob sefydliad cysylltiedig o ran mwyafu eu cyfraniad cyfunol i'r nodau a mynd i'r afael â heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Mae'r ffordd yr ydych wedi nodi chwe thema ac 19 o 'sbardunau llesiant' yn ddi-ddorol a bydd eich dull o sgorio'r sbardunau yn darparu pwyntiau trafod defnyddiol ac yn eich galluogi hefyd i ganolbwyntio ar eich dyheadau a sut gallai cynnydd edrych. Credaf fod cyfle i chi ymchwilio ymhellach i **integreiddio'r** themâu, y sbardunau a'r saith nod llesiant cenedlaethol. Er mwyn i'r BGC ddeall sut gall **fwyafu ei gyfraniad**, bydd angen deall a chyfleu'r berthynas rhwng yr amcanion strategol o dan y chwe thema hyn a'r nodau cenedlaethol.

Roeddwn yn falch o weld y dechrau da a wnaethoch â'ch dull o **gynnwys pobl a chymunedau** wrth ddatblygu eich asesiad, ac mae eich dull o sgorio sbardunau yn rhoi sylfaen gref i chi ar gyfer ymgysylltu ystyrllon pellach. Byddwn yn eich annog i sicrhau eich bod yn parhau i roi cyfleoedd i ystod eang o randdeiliaid a dinasyddion ymgyfrannu a dylanwadu ar ddatblygiad eich amcanion, a medru dangos bod eu mewnbwn yn cael effaith ar yr hyn a wnewch.

Mae'r adborth manwl yn amlygu bod rhai o'r adrannau ynghylch y 'Rhagolygon i'r Dyfodol' wedi cael eu hysgrifennu'n arbennig o dda, yn enwedig eich adran ynghylch 'Safon Weddus o Fyw'. Wrth i chi ddatblygu'r asesiad a symud tuag at gynllunio llesiant, hoffwn eich gweld yn adeiladu ar y gwaith hwn er mwyn rhoi mwy o sylw i effaith bosibl tueddiadau tymor hir ar Abertawe o dan bob un o'ch themâu a sbardunau. Dylai hyn gynnwys mwy o ymwybyddiaeth o faterion allweddol i lesiant Abertawe yn y **tymor hir**, drwy roi ystyriaeth arbennig i'r heriau a ddaw yn eu sgîl a'r lleoliadau, y cymunedau a'r bobl benodol yr effeithir fwyaf arnynt, fwy na thebyg, neu sydd fwyaf agored iddynt.

Un o elfennau allweddol y ddeddfwriaeth yw'r ffocws ar **atal problemau** rhag digwydd yn hytrach na gwneud dim mwy nag ymateb iddynt ac rwy'n gweld hyn fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer eich cynlluniau llesiant. Er eich bod yn sôn am ataliaeth yng nghyd-destun ymyrraeth yn y blynyddoedd cynnar a'r amgylchedd, byddai eich asesiad yn elwa o ddisgrifio sut mae'r agenda ataliol yn hollbwysig i gynllunio llesiant a darparu gwasanaethau cyhoeddus. Mae hwn yn faes lle byddwn i'n eich annog i roi ystyriaeth fanwl i'r hyn y mae'r data a'r dystiolaeth yn ei ddweud wrthy, er mwyn gwneud synnwyr o'r heriau allweddol a nodwyd gennych.

Ac mae **cydweithio** yn allweddol i hyn oll - mae cyfle gennych bellach i symud eich gwaith partneriaeth i lefel newydd, gan gydweithio drwy gyfrwng adnoddau a darganfod dulliau newydd o ddelio â hen broblemau. Dylai eich asesiad eich helpu i nodi'r cyfleoedd mwyaf ffrwythlon ar gyfer gwneud hyn.

Mae eich tîm cymorth wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r asesiad hwn a bydd ar y bobl sy'n cynorthwyo eich cynlluniau llesiant angen eich ymrwymiad a'ch cefnogaeth lwyr. Nodweddion allweddol yn hyn o beth, fwy na thebyg, fydd yr arweiniad a roddir gennych a'ch parodrwydd i roi lle a chaniatâd i bobl

archwilio dulliau newydd o fynd i'r afael â hen broblemau. Yn ei hanfod, mae'r newid diwylliant hwn yn crynhoi natur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gan ragweld y bydd gofyn i mi ddarparu cyngor ar y modd y dylech gymryd camau i gyflawni eich cydamcanion, hoffwn weld manylion pellach ynghylch sut byddwch chi'n defnyddio eich asesiad wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Byddwn yn ddiolchgar os gallech roi gwybod i'm swyddfa sut yr ydych wedi ymateb i'n hadborth. Gan gadw hyn mewn golwg, bydd hefyd yn bwysig i chi roi fy adborth i i'r pwyllgor craffu sy'n arwain y gwaith o graffu ar waith y BGC. Nodwyd bod angen ymagwedd fwy adeiladol tuag at graffu a bod hynny'n rhan bwysig o fwyafu'r gweithredu ar y cyd ar lefel leol.

Rwy'n gobeithio bod ein hadborth yn glir ac yn ddefnyddiol yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, mae'n rhaid i mi ailadrodd nad wyf yn gweld datblygu eich asesiad fel digwyddiad unwaith yn unig. Wrth symud ymlaen, byddaf yn rhoi cyfleoedd i'r BGCau rannu gwersi ac arfer gorau. Gobeithio y byddwch chithau'n ymwneud â hynny, er mwyn darparu'r llwyfan gorau i chi gyflawni eich ymrwymadau parhaus o dan y Ddeddf.

Dymuniadau gorau



Sophie Howe  
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

## Adborth gan Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar Aseiad o Lesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe 2017: Sylfaen dystiolaeth Cynllun Llesiant Abertawe

### 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi adborth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe ar ddrafft ymgynghori Aseiad Llesiant Abertawe a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2017. Mae'r adborth hwn yn seiliedig ar yr adolygiad a wnaed gan ein tîm prosiect<sup>1</sup> o'r dogfennau a'r trafodaethau allweddol canlynol:

- *Aseiad Llesiant Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe 2017: Sylfaen dystiolaeth Cynllun Llesiant Abertawe. Drafft Ymgynghori - Ionawr 2017*
- *Aseiad Llesiant Lleol Abertawe 2017 [Fersiwn Ddrafft] - Atodiad 1: Proffil Demograffig o Abertawe*
- *Aseiad Llesiant Lleol Abertawe 2017 [Fersiwn Ddrafft] - Atodiad 2: Ardaloedd Cymunedol yn Abertawe yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA)*
- *Aseiad Llesiant Lleol Abertawe 2017 [Fersiwn Ddrafft] - Atodiad 3: Cefndir yr Aseiad*
- trafodaeth ffôn rhwng y tîm prosiect ac aelodau o dîm y BGC ar 14<sup>eg</sup> Chwefror

Bwriedir bod yr adborth hwn yn cael ei ddefnyddio i lywio cyhoeddi'r aseiad yng ngwanwyn 2017 lle bydd hynny'n bosibl a chan gydnabod yr amserlenni sy'n bodoli, ond mae'n bwysicach ei fod yn llywio'r prosesau parhaus o ddatblygu eich aseiad a'ch cynlluniau llesiant.

Mae'r aseiad wedi cael ei adolygu gan y tîm prosiect gan ddefnyddio set o feini prawf a ddatblygwyd yn arbennig i ffocysu ar agweddau ar waith cynhyrchu, methodoleg a dadansoddi yr aseiad a gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r meini prawf hyn yn ein galluogi i adolygu'r ystod eang o ymagweddau tuag at yr aseiad llesiant lleol a ddefnyddiwyd, ledled Cymru. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i ddarparu adborth pwrpasol i'r BGCau, gan amlygu cryfderau a meysydd y gellid eu gwella. Bydd yr ymagwedd gyson hon hefyd yn galluogi'r Comisiynydd i nodi materion allweddol ac amlygu

---

<sup>1</sup> Dr. Alan Netherwood, Netherwood Sustainable Futures, Dr. Andrew Flynn, Prifysgol Caerdydd a Dr. Mark Lang, Mark Lang Consulting

cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, ar lefel Cymru gyfan, ar gyfer yr ystod eang o gyrff sector cyhoeddus a chyrrff eraill sy'n ymwneud â chynllunio llesiant.

Rydym yn deall o'r sgwrs ffôn gyda thîm y BGC fod yr Asesiad Llesiant yn broses barhaus, a bod gwaith pellach yn cael ei wneud ar hyn o bryd, ond mae'n bwysig nodi'r sylwadau canlynol a gweithredu arnynt wrth i'r asesiad llesiant gael ei ddatblygu a'i addasu ac wrth adeiladu arno i lywio cynllunio llesiant ar draws y BGC.

## 2. Nodau llesiant cenedlaethol

Un o'r materion rydym wedi ei ystyried yw pa mor effeithiol yr adlewyrchwyd y saith nod llesiant cenedlaethol yn yr asesiad, gan fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn bod BGCau yn dangos sut maent yn cynllunio i fwyafu eu cyfraniad i'r nodau. Mae'n bwysig bod cysylltiad clir rhwng y data mewn asesiadau, y dehongliad ohono a'n dealltwriaeth o bob agwedd ar lesiant yn ein cymunedau.

Deallwn y bydd BGCau yn datblygu gwahanol ddulliau o adlewyrchu llesiant; yn achos Abertawe ar draws chwe thema<sup>2</sup> a 19 o 'sbardunau' llesiant. Mae'r rhesymau dros ddefnyddio'r fframwaith hwn yn glir ac mae Atodiad 3 yn arbennig o ddefnyddiol o ran egluro hyn. Roedd yn amlwg hefyd o'r sgwrs ffôn fod y dull gweithredu hwn wedi esblygu o waith partneriaeth blaenorol.

Bydd hwn yn fframwaith defnyddiol ar gyfer dod i ddeall cysylltiadau achosol a chymau ataliol wrth i'ch sylfaen o dystiolaeth ddatblygu. Rydym yn deall bwriad y sgoriau ac yn edrych ymlaen at glywed sut mae'r dull gweithredu hwn yn ennyn ymgysylltiad partneriaid a chymunedau. Mae lle i chi ddarparu mwy o eglurhad ynghylch sut dewiswyd y chwe thema a sut mae'r rhain yn cysylltu â'r saith nod llesiant cenedlaethol ac yn cyfrannu atynt. Pam mai'r chwe thema a'r 19 sbardun hyn, yn hytrach na materion llesiant eraill, sy'n arbennig o bwysig i Abertawe?

Er mwyn i'r BGC ddeall sut y gall *fwyafu* ei gyfraniad, bydd angen deall y berthynas rhwng amcanion strategol o dan y chwe thema hyn a'r nodau cenedlaethol. Er bod cyfeiriad at y saith nod cenedlaethol yn y cyflwyniad, ni chyfeirir atynt o dan y chwe thema nac yn y dystiolaeth na'r dadansoddiad o'r 19

---

<sup>2</sup>Bod plant yn cael dechrau da mewn bywyd; Bod pobl yn dysgu'n llwyddiannus; Bod gan bobl ifanc ac oedolion swyddi da; Bod gan bobl safon weddus o fyw; Bod pobl yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol; Bod gan bobl fannau da i fyw a gweithio ynddynt, ac ymweld â nhw.

sbardun. Mae'r adran *'Ynghylch y canlyniad hwn'* yn gyfle i'r awduron ddatblygu'r cysylltiad hwn. Gellid gwneud hynny â thabl syml sy'n esbonio'r cyfraniad at bob un o'r nodau llesiant cenedlaethol.

Ar hyn o bryd, mae'r *'Crynodebau'* a'r adrannau *'Ynghylch y canlyniad hwn'* yn aml yn rhagdybio bod dealltwriaeth ymhlyg o sut bydd mater yn effeithio ar lesiant. Gellid gwneud hyn yn fwy amlwg a gallai'r nodau llesiant cenedlaethol fod yn offeryn defnyddiol yn hyn o beth, er mwyn nodi cyfraniad posibl y BGC at nodau lluosog trwy weithgaredd integredig.

Byddem yn disgwyl gweld eglurhad mwy pendant ynghylch y berthynas hon mewn fersiynau o'r asesiad yn y dyfodol a thrwy gydol y broses cynllunio llesiant yn Abertawe.

### 3. Cynnwys data – ardal a lle

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn gofyn bod asesiadau llesiant yn canolbwyntio ar yr ardal a'r 'lle' ac yn adlewyrchu'r amrywiaeth o gymunedau ledled eich ardal. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data eich asesiad yn gwneud hynny.

Mae defnydd da o ddata am Abertawe yn gyffredinol, ynghyd â data cymharol a rhanbarthol i lywio eich asesiad sy'n rhoi dealltwriaeth eang o'r mathau o heriau i lesiant. Mewn manau, fodd bynnag, byddai'n fanteisiol dehongli mwy ar y data er mwyn deall *arwyddocâd* y mater i Abertawe yn gyffredinol. Mae gwella ein dealltwriaeth o lesiant trwy ddehongli mwy effeithiol, a chyfleu arwyddocâd yr heriau i lesiant yn ddwy thema y byddwn yn cyfeirio atynt yn nes ymlaen yn y ddogfen adborth hon.

Mae'r ffrâm rydych wedi'i datblygu i gofnodi gwybodaeth o dan bob thema a sbardun yn ganmoladwy ac mae'n rhoi 'cais' sylfaenol, ond un a ystyriwyd yn ofalus, gerbron y cyfranwyr o dan bob pennawd<sup>3</sup>. Mae hyn yn cynnwys adran sy'n gofyn bod awduron yn dadansoddi'r *'Gwahaniaethau yn Abertawe'*. Mae enghreifftiau da o ddata LSOA ac MSOA yn llywio'r naratif, gan gynnwys yr adran *'Bod gan bobl safon weddus o fyw'* a chanlyniad F2 ynghylch yr amgylchedd a seilwaith.

Yn gyffredinol, fodd bynnag, credwn y gellid gwella'r dadansoddiad trwy ganolbwyntio'n fwy ar gymunedau unigol ledled ardal Abertawe. Gallai hyn gynnwys gwell dealltwriaeth o lesiant mewn gwahanol ardaloedd a lleoedd, gwahaniaethau mewn ardaloedd neu rhwng ardaloedd, anghydraddoldebau a materion lleol sy'n arbennig o aciwt. Credwn y dylai asesiad llesiant gynnig

---

<sup>3</sup>Cryfderau Abertawe: Newidiadau dros amser; Cymharu â manau eraill; Gwahaniaethau yn Abertawe; Canfyddiad a safbwyntiau; Rhagolygon i'r dyfodol; Sut olwg fyddai ar welliant: Ynghylch y dystiolaeth:

dealltwriaeth o lesiant sy'n fwy lleol (a llai unffurf), a byddwn yn chwilio am dystiolaeth o hynny wrth i'r cynllunio llesiant symud ymlaen.

Bu'n ddefnyddiol deall o'n sgwrs ffôn bod y cyfyngiadau amser a wynebai'r BGCau o ran llunio'r asesiad wedi dylanwadu ar i ba raddau y gellid cynnwys data lleol, a bod bwriad i adeiladu ar y gwaith hwn yn y dyfodol er mwyn cynnwys data ar lefel cymuned ar draws Gorllewin y Bae; Dwyrain y Bae; y Ddinas; Cwm Tawe; Penderi a Llŵchwr. Ar y sail hon, mae angen datblygu Atodiad 1 ac Atodiad 2 ymhellach.

Hefyd, gellid cryfhau'r asesiad trwy gynnwys data ar seilwaith critigol o ran ynni, dŵr, trafndiaeth a seilwaith arall. Dylai hyn gynnwys dehongli'r heriau a chyfaddawdau allweddol (gweler y sylwadau ar hyn ym mhwynt 7 isod). Mae'r math hwn o wybodaeth yn allweddol berthnasol i'r BGC, i ddarparu gwasanaethau ac i lesiant cymunedol yn y dyfodol.

#### 4. Cynnwys data - anghenion gwasanaethau cyhoeddus

Credwn ei bod yn bwysig bod gennych ddarlun clir o wahanol anghenion pobl a chymunedau yn awr ac yn y dyfodol, a bod goblygiadau'r rhain yn cael eu deall. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data'r asesiad yn ffocysu ar anghenion gwasanaethau cyhoeddus, o fewn cymunedau ac ar gyfer grwpiau penodol o unigolion.

Un o flaenoriaethau fy swyddfa yw annog cyrff cyhoeddus a BGCau i sicrhau eu bod, yn y lle cyntaf, yn cynnwys pobl a chymunedau mewn ffyrdd sy'n rhoi mwy o ymwybyddiaeth iddynt o brofiadau bywyd pobl o gyrff cyhoeddus, ac yn ail, eu bod yn gweithredu ar sail yr ymwybyddiaeth hon pan fyddant yn gwneud penderfyniadau ac yn darparu gwasanaethau.

Mae'n gadarnhaol gweld llawer o'r adrannau o dan bob un o'r 19 sbardun yn darparu gwybodaeth feinitol ac ansoddol ynghylch gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig yn yr adrannau '*canfyddiad a safbwyntiau*', '*rhagolygon i'r dyfodol*' a '*newidiadau dros amser*'. Mae hwn yn adnodd defnyddiol y dylai'r BGC fynd ati i'w goladu a'i ddadansoddi - beth mae'r wybodaeth hon yn ei ddweud wrthym ynghylch a yw gwasanaethau yn ddigonol; a oes bwlch sylweddol mewn gwasanaethau cyhoeddus i fynd i'r afael â'r 'sbardun'; i ba raddau mae'r 'sbardun' yn her i wasanaethau cyhoeddus; a rôl bosibl y BGC o ran datblygu gweithredu ar y cyd er mwyn mynd i'r afael â'r mater?

Gallech adeiladu ar hyn er mwyn rhoi rhagor o ystyriaeth i ddehongli'r data a deall yr her sy'n wynebu gwasanaethau cyhoeddus. Trafodir y mater hwn yn fanylach o dan bwynt 6. Gellid cryfhau'r asesiad â

dadansoddiad o'r prif negeseuon i'r BGC ac i'r sector cyhoeddus yn fwy cyffredinol, ynghylch y newid sylfaenol a fydd yn ofynnol, fwy na thebyg, er mwyn mynd i'r afael â'r 19 sbardun.

Deallir hefyd y bydd y gwaith ymgynghori a gomisiynwyd ar y cyd â Chyngor Castell-nedd Port Talbot a Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr hefyd yn rhoi darlun o anghenion gwasanaethau cyhoeddus, yn enwedig o gofio bod y gwaith hwn yn ystyried y data o'r Asesiad Poblogaeth.

## 5. Dadansoddiad Meintiol ac Ansoddol

Rydym yn cydnabod her cydbwysio data, sylwadau a thystiolaeth er mwyn dod i ddealltwriaeth gyflawn o lesiant cymunedau ac unigolion yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir. Un o'n prif ystyriaethau fu i ba raddau y mae dulliau a dadansoddiadau meintiol ac ansoddol yr asesiadau yn rhoi darlun cyffredinol o lesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol, ynghyd â sylwebaeth gychwynnol ar oblygiadau'r 'darlun' hwn i gymunedau h.y. beth sydd o bwys mewn gwirionedd?

Fel yr awgrymwyd uchod, credwn fod y fframwaith a'r templedi a ddatblygwyd ar gyfer yr asesiad yn ardderchog ac mae'n amlwg eu bod o gymorth i chi goladu a dechrau dehongli deunydd swmpus iawn. Mae'r rhain yn offeryn defnyddiol hefyd ar gyfer ymgynghori pellach.

Yn gyffredinol, mae defnydd da o ddata meintiol i ddisgrifio'r sefyllfa bresennol. Mewn manau, fodd bynnag, byddai'r naratif cysylltiedig yn elwa o ddehongli pellach er mwyn deall *arwyddocâd* y data (mae hyn yn arbennig o berthnasol i sbardunau iechyd ac addysg). Byddai hynny'n ein helpu i ddeall y sefyllfa yn gliriach. Hefyd, gwelir amrywiaeth mawr yn y blychau 'crynodeb' o ran diffinio goblygiadau'r darlun i gymunedau. Mae angen cryfhau hyn i gael synnwyr o raddfa, arwyddocâd a goblygiadau i lesiant.

Yn hyn o beth, mae defnydd llawer gwell o ddata ansoddol ac mae rhai awduron wedi darparu dadansoddiad greddfol ardderchog sy'n helpu i ddisgrifio arwyddocâd y sefyllfa bresennol (mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r adrannau ynghylch tlodi a diwylliant). Dylid annog y math hwn o ddull gweithredu ar draws y 19 sbardun. Mae'r adran '*Bod gan bobl safon weddus o fyw*' yn nodedig am ei chydbwysedd rhagorol o ddata ansoddol, data meintiol, dehongli a naratif a dylid ei defnyddio fel meincnod ar gyfer adrannau eraill.

Seiliwyd y sylwadau isod ar ba mor effeithiol y mae'r 'templedi' a ddatblygwyd yn cyfathrebu ac yn asesu llesiant. Mae'n amlwg bod potensial clir yn y templedi hyn os cânt eu defnyddio'n dda ac os dadansoddir gwybodaeth ar draws yr 19 sbardun.





*Cryfderau Abertawe* – mae'r adran hon yn darparu rhestr gynhwysfawr o asedau a gwasanaethau presennol ac ymyriadau sector cyhoeddus. Byddai'n ddefnyddiol cael gwell dealltwriaeth o effaith gymharol y gweithgareddau hyn o ran mynd i'r afael â'r 'sbardun'. Beth mae angen gwneud mwy ohono?

*Newidiadau dros amser* - mae'r adrannau hyn yn amrywiol o ran cyfleu sut mae'r 'mater' yn effeithio ar lesiant - beth yw effaith y newid neu'r tueddiad a beth yw goblygiadau hynny i wasanaethau cyhoeddus?

*Cymharu* - gallai'r asesiad fod yn fwy eglur ynghylch beth mae'r cymariaethau'n ei ddweud wrthym mewn llawer o'r sbardunau - os oes gwahaniaeth o 0.1% rhwng Abertawe a Sir Gaerfyrddin a Phen-y-bont ar Ogwr a yw hynny'n arwyddocaol? Ai anghydraddoldeb neu materion ar gyfer y gwasanaethau cyhoeddus a amlygir yma?

*Gwahaniaethau yn Abertawe* - mae potensial i'r adran hon ac Atodiad 1 a 2 ddatblygu i fod yn adnodd ardderchog (gweler y sylwadau uchod ym mhwynt 3) ond mae amrywiadau mawr yn y ffordd y cwblhawyd yr adran. A ellir defnyddio mwy ar ddata ansoddol i ddisgrifio gwahaniaethau yn Abertawe os na fydd data meintiol ar gael?

*Canfyddiad a Safbwyntiau* - mewn llawer o achosion, nid yw'n amlwg i bwy y mae'r canfyddiad a'r safbwyntiau hyn yn perthyn, ac felly byddai'n ddefnyddiol petai modd gwneud hynny'n fwy eglur. Mae'r adran hon yn sylfaen dda ar gyfer cynnwys gwybodaeth o'r gweithgareddau ymgynghori.

*Rhagolygon i'r dyfodol* - cwblhawyd llawer o'r adrannau hyn ar sail yr hyn fydd yn digwydd, yn ôl pob tebyg, yn ystod y blynyddoedd nesaf o ran ymyriadau a gynlluniwyd, tra bod eraill yn ymwneud yn fwy â dyheadau. Dylai'r BGC ddefnyddio'r wybodaeth hon a'i chrynhoi i lywio'r newid sy'n ofynnol er mwyn mynd i'r afael â'r 'sbardun' yn ogystal â rôl y BGC. Prin yw'r adrannau sydd â ffocws tymor hir o 10 mlynedd neu fwy - mae angen annog y ffocws hwn er mwyn dechrau deall tueddiadau tymor hir a'u heffaith bosibl (gweler y sylwadau ar Ragwelediad a Thueddiadau'r Dyfodol ym mhwynt 10).

*Sut olwg fyddai ar welliant?* – Mae'r adran hon eisoes yn cynnig adnodd ardderchog o ran deall natur y newid y mae gofyn ei wneud a'r goblygiadau i wasanaethau cyhoeddus. Dau gwestiwn a allai fod yn ffocws wrth ddefnyddio'r deunydd hwn yw sut gellid cyflawni'r 'gwelliant', a 'beth yw rôl y BGC yn hyn o beth?'

*Ynghylch y dystiolaeth* - mae'r adrannau hyn yn amrywiol hefyd, ond cynigiant adnodd da arall i'r BGC ddeall bylchau data a'r potensial i ymdrin â nhw. (Gweler y sylwadau pellach ar hyn ym mhwynt 12 isod).

Mae'r sylwadau canlynol yn ffocysu ar yr adrannau thematig o'r asesiad ac i ba raddau y mae'r rhain yn asesu llesiant ar draws y 19 sbardun:

*Canlyniad A: Bod plant yn cael dechrau da mewn bywyd* – mae llawer o'r wybodaeth hon yn gyffredinol a byddai modd mynegi'r effeithiau a'r arwyddocâd ledled Abertawe yn fwy eglur. Mae peth o'r iaith yn adlewyrchu 'rheoli perfformiad' ac mae angen bod yn fwy eglur ynghylch arwyddocâd effeithiau e.e. "mae angen gwella ymhellach", "mae pryderon" - beth yw natur y pryderon a graddfa'r gwelliant angenrheidiol?

*Canlyniad B: Bod pobl yn dysgu'n llwyddiannus* – mae'r adran hon y troi i raddau helaeth o gwmpas ystadegau ynghylch cyrhaeddiad addysgol. Mae ffocws cul yma i bob golwg a phrin yw'r sôn am y Prifysgolion neu'r Colegau sydd yn Abertawe, heb ddim sôn o gwbl am addysg barhaus. Beth yw'r rhesymeg y tu ôl i ddewis y sbardunau hyn er mwyn mesur y canlyniad hwn?

*Canlyniad C: Bod gan bobl ifanc ac oedolion swyddi da* - mae tystiolaeth dda yn yr adran hon ond gallai fwrw rhagor o oleuni ar arwyddocâd y gwahanol agweddau ar economi Abertawe - beth yw rôl y sector cyhoeddus? Beth yw rôl bargaen ddinesig y Ddinas-ranbarth? Prin yw'r ddealltwriaeth o ddsbarthiad swyddi ar draws Abertawe a rôl arbennig manwerthu mewn cymunedau penodol neu rôl Abertawe fel canolbwynt is-ranbarthol. Mae stori lawer mwy strategol ynghylch llesiant yma nad yw'n cael ei chwmpasu gan y ffrâm gul a geir o amgylch yr ystadegau sydd ar gael.

*Canlyniad D: Bod gan bobl safon weddus o fyw*

*Canlyniad E: Bod pobl yn iach, yn ddiogel ac yn annibynnol*

Fel y nodwyd o'r blaen, mae'r adrannau hyn wedi eu datblygu'n arbennig o dda. Mae'n amlwg bod gan yr awduron hyder i ddehongli'r data a'u bod yn dda am dynnu allan yr heriau allweddol yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir, ynghyd â gwelliannau a goblygiadau i wasanaethau cyhoeddus. Dylai pob adran anelu at ddefnyddio'r ymagwedd hon.

*Canlyniad F: Bod gan bobl fannau da i fyw a gweithio ynnddynt, ac ymweld â nhw - mae'r adran ar ddiwylliant yn gryf ac wedi'i hysgrifennu'n dda. Mae angen datblygu adrannau eraill i fod yn fwy na rhestr o bwyntiau bwled e.e. pa gryfder sy'n deillio o gael dwy Brifysgol? Beth yw'r sefyllfa o ran tai fforddiadwy? Pa fioamrywiaeth sy'n dirywio ac o dan fygythiad?*

## 6. Heriau allweddol

Mae'n bwysig bod asesiadau llesiant, wrth asesu cyflwr llesiant, yn canolbwyntio ar yr heriau allweddol i lesiant yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir, yn ogystal ag ar y nodweddion cadarnhaol ac asedau yn yr ardal. Mae hyn yn cynnwys cyfaddawdu rhwng y gwahanol nodau llesiant, tensiynau, a diffygion yn yr ardal.

Deallwn y bwriedir i'r asesiad fod yn ysgogiad i ddatblygu sgwrs ynghylch yr heriau yn Abertawe a sut mae mynd i'r afael â nhw. Fodd bynnag, fel y nodwyd yn flaenorol, gellid gwella'r asesiad ar ei hyd â dehongliad pellach o'u harwyddocâd i Abertawe a'i chymunedau - *sut* bydd y materion hyn yn effeithio ar lesiant. Mae angen gwell dealltwriaeth arnom o ba gymunedau a phobl sy'n gydnerth neu'n fregus yn wyneb tueddiadau yn awr ac yn y dyfodol. Bydd hyn yn gymorth i'r BGC ddeall pa agweddau ataliol y gellir eu datblygu ac a ddylai fod yn ganolbwynt i waith ar yr asesiad yn y dyfodol.

Gellid diffinio'r heriau hyn yn fwy eglur yn y 'crynodeb' ar bob sbardun. Hefyd, mae'r adran *rhagolygon i'r dyfodol* yn gyfle gwych i gyfathrebu ynghylch yr heriau yn y tymor canol a'r tymor hir. Dylid annog awduron a chyfranwyr i ddatblygu'r ymagwedd hon.

Mae data cyfoethog iawn yn y ddogfen sy'n darparu dadansoddiad craff a dylai hyn fod yn nodwedd fwy amlwg mewn crynodeb eang yn y brif ddogfen. Mae'n amlwg y dylai rhai materion craidd a ddisgrifiwyd o fewn y naratif ddarparu cefnlen fwy pendant i'r holl sbardunau: plant sy'n byw mewn tloidi; adnoddau prin ar gyfer gofal cymdeithasol; diffyg darpariaeth tai; diwygio lles; effeithiau'r hinsawdd; cyni; disbyddu adnoddau naturiol. Mae hwn yn faes lle gallai'r wybodaeth a'r data presennol helpu i ddarparu cyd-destun strategol ehangach ar gyfer y 19 sbardun.

## 7. Ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos yn glir bod cydweithio ac ymgyfrannu yn ddau o'r pum dull o weithio y mae angen i BGCau eu defnyddio'n gyson yn eu gwaith. O ganlyniad, bu gennym

ddiddordeb arbennig yn lefel a dulliau ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio ar draws y bartneriaeth wrth gynhyrchu'r asesiad, gan gynnwys ymgysylltu â chymunedau, y cyhoedd, y trydydd sector a sefydliadau sector preifat.

Bu'r drafodaeth ffôn o gymorth i ni ddeall y gwaith sy'n cael ei wneud ar y cyd â Chyngor Pen-y-bont ar Ogwr a Chyngor Castell-nedd Port Talbot i archwilio'r asesiadau llesiant a phoblogaeth ac ymgynghori arnynt. Edrychwn ymlaen at weld adroddiadau ar y gwaith hwn. Mae'r data a gyflwynir yn gymhleth a byddwn yn ymddiddori mewn gweld sut bydd y cydweithio a'r ymgysylltu ac ymgynghori yn y dyfodol yn cyflwyno'r wybodaeth i'r cyhoedd ac i gymunedau wrth i'r cynlluniau llesiant symud ymlaen.

O ganlyniad i hyn, mae'n amlwg mai darlun rhannol yn unig sydd gennym o'r gwaith ymgysylltu ac ymgynghori a ddefnyddiwyd i lywio'r asesiad. Gallwn weld yr ymdrech a wnaed o ran yr arolwg ar-lein a deall lefel y cydweithio ar draws y bartneriaeth i ddatblygu'r asesiad.

Mae'n dda clywed hefyd i ba raddau y bu'r asesiad hwn yn gatalydd i ddatblygu cydweithio ar draws y BGC. Dylai'r asesiad terfynol egluro manteision y cydweithio hwn, natur y cyfraniad ac ymhle y gellid gwella gwaith ar y cyd. Mae'r cydweithio hwn yn gadarnhaol a dylid adeiladu arno wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant.

## 8. Integreiddio

Un o nodau allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw datblygu integreiddio ar bob lefel ar draws y sector cyhoeddus. Credwn ei bod yn bwysig deall y gydberthynas rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. O ganlyniad, rydym wedi bod yn awyddus i ystyried faint o integreiddio sy'n bodoli rhwng seilos polisi a sefydliadol traddodiadol wrth gynhyrchu'r Asesiad. Mae'n bwysig bod y data a restrir yn yr asesiad yn cael ei archwilio ar draws y seilos polisi a sefydliadol traddodiadol er mwyn dehongli beth mae hyn yn ei olygu i lesiant yn yr ardal.

Mae lle i roi mwy o ystyriaeth i'r data o bob adran (ac ym mhob adran) ochr yn ochr â data'r lleill, ac ystyried y cydberthnasoedd rhwng y data. Mae hwn yn faes y dylech roi ystyriaeth bellach iddo wrth i chi gwblhau eich asesiad ar gyfer ei gyhoeddi ac wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Dylai hynny gynnwys mwy o integreiddio ac archwiliad pellach o'r berthynas rhwng polisiau a heriau yn yr 19 sbardun - er enghraifft mae tai a'r newid yn yr hinsawdd yn cael effeithiau lluosog ar draws nifer o sbardunau - sut bydd yr asesiad a'r cynlluniau llesiant yn ymdrin â materion trawsbynciol eu natur? Fel y

nodwyd ym mhwynt 2, gallai'r nodau llesiant ddarparu ffrâm ddefnyddiol ar gyfer ymchwilio i integreiddio ar draws yr holl sbardunau sylfaenol ac eilaidd yn yr asesiad.

Deallwn fod gwaith yn digwydd yn barod a bod cynlluniau i ymchwilio ymhellach i ganfyddiadau'r asesiad gyda phartneriaid. Dylai'r cydberthnasoedd hyn fod yn rhan o'r gwaith hwn. Dylai integreiddio ar draws themâu llesiant fod yn fater pwysig i'w ystyried gan y BGC wrth symud tuag at gynllunio llesiant.

## 9. Rhagwelediad a thueddiadau'r dyfodol

Un o heriau allweddol y ddeddfwriaeth yw ystyried llesiant yn y tymor byr, y tymor canol *a'r tymor hir* trwy gydol proses yr asesiad a'r Cynllun. Mae gennym ddi-ddordeb yn lefel y rhagwelediad a'r defnydd a wneir o ddadansoddi tueddiadau'r dyfodol wrth gynhyrchu'r asesiad ynghyd â chydabod llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Yn gyffredinol, mae angen rhoi mwy o sylw i effaith bosibl tueddiadau tymor hir ar Abertawe o dan yr 19 sbardun ac mae hyn yn rhywbeth y byddem yn disgwyl ei weld yn gwella wrth i'r asesiad a'r Cynllun ddatblygu h.y. pa mor fregus neu gydnerth yw'r seilwaith yn Abertawe o ran ynni, dŵr, trafnidiaeth a seilwaith arall, ac a all gynnal yr economi a darparu sylfaen ar gyfer llesiant ar draws y 19 sbardun?

Fel yr eglurwyd ym mhwynt 5, mae'r defnydd o'r adran 'Rhagolygon i'r Dyfodol' i ystyried llesiant tymor hir ar draws yr 19 sbardun yn amrywiol. Gwnaed hynny'n eithriadol o dda mewn rhai adrannau - yn enwedig yn yr Adran 'Safon Weddus o Fyw' a gellid ei ddatblygu ymhellach mewn adrannau eraill fel 'Dechrau Da mewn bywyd' a 'Bod Pobl yn Dysgu'n Llwyddiannus'.

Deallwn o'r sgwrs ffôn fod cyfle i gynnwys mwy o ddadansoddi ar effaith bosibl tueddiadau'r dyfodol ar lesiant a datblygu dull 'craffu ar y gorwel'. Byddem yn eich annog i fynd ar ôl y mater hwn yn y BGC wrth i chi fynd ati i ddatblygu'r asesiad a'r cynlluniau llesiant.

Gellid mabwysiadu ymagwedd syml er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn. Gallai crynhoi'r heriau yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir ar gyfer pob adran, gan nodi ymhle y mae goblygiadau arwyddocaol posibl i'r ardal, a'r bylchau yn eich dealltwriaeth o dueddiadau tymor hir, helpu'r BGC i flaenoriaethu'r heriau hollbwysig sy'n galw am weithredu ar y cyd.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu ei hadroddiad ar Dueddiadau'r Dyfodol ym mis Mai 2017. Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnwys 6 thema allweddol sef: Poblogaeth, Economi, Adnoddau Naturiol a'r

Newid yn yr Hinsawdd, Iechyd, Defnydd Tir a Seilwaith, a Newid Cymdeithasol. Wrth iddo ddatblygu bydd angen i'ch asesiad roi sylw i'r data a gynhwysir yn hwn, ond dylai anelu at roi pwyslais cliriach ar heriau'r tymor hir i lesiant yn yr asesiad cychwynnol a gyhoeddir yn ystod y misoedd nesaf.

## 10. Materion Trawsffiniol

Mae integreiddio a chydweithio'n ganolog i gyrrff cyhoeddus pan fyddant yn cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy i'w gweithgareddau. Un o'n nodau fu adolygu i ba raddau y mae'r asesiad wedi ystyried materion trawsffiniol ar gyfer gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol.

Credwn y byddai dealltwriaeth a dadansoddiad manylach o'r materion allweddol rhanbarthol a thrawsffiniol sy'n effeithio ar Abertawe yn fanteisiol, i lywio proses y cynllun llesiant. Prin yw'r cyfeiriadau at y rhanbarth ar draws yr 19 sbardun a lle mae sôn amdano, ychydig iawn o ddehongli sydd.

Byddai'r asesiad yn elwa o beth dehongli pellach ar sut gallai Prosiect Dinas-ranbarth Bae Abertawe effeithio ar bob agwedd ar lesiant cymunedol ledled Abertawe. Er bod yr effeithiau penodol yn aneglur ar hyn o bryd, mae'n amlwg y bydd yn dylanwadu ar gydlyniant, cydraddoldeb, cydnerthedd ac ati. Dylid cynnwys dylanwad posibl y prosiect ar gyfer pob adran o'r asesiad, y tu hwnt i'r sbardunau economaidd, gan y bydd yn debygol o gael effaith luosog ar draws gwahanol rannau o Abertawe. Gellid bwrw rhagor o oleuni hefyd ar arwyddocâd patrymau cymudo i lesiant yn Abertawe, materion hollbwysig i'r seilwaith trafnidiaeth a natur y gydberthynas ag awdurdodau cyfagos a phartneriaid rhanbarthol eraill. Bydd hefyd yn bwysig bod y BGCau yn ystyried casgliadau asesiadau llesiant lleol eu cymdogion wrth fynd ati i ddatblygu eu cynllun.

Mae'r ffocws rhanbarthol hwn yn rhywbeth y byddem yn disgwyl iddo gael ei gynnwys mewn fersiynau o'r asesiad yn y dyfodol er mwyn llywio cynllunio llesiant yn Abertawe gan ffurfio rhan o gyd-destun ehangach y sbardunau, o bosibl, fel yr awgrymwyd ym mhwynt 6. Roedd yn dda clywed yn ystod y sgwrs ffôn fod tîm y BGC eisoes yn ystyried materion rhanbarthol.

## 11. Ansawdd data a bylchau data

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau y bydd cynllunio llesiant yn broses barhaus lle bydd y sylfaen o dystiolaeth yn gwella'n raddol dros amser i alluogi cyrff cyhoeddus ac eraill i ddeall a chynllunio ar gyfer llesiant yn eu cymunedau. Rydym yn awyddus i ddeall ymagwedd y BGCau at ansawdd data a bylchau data yn ystod yr asesiad a materion data wrth symud ymlaen.

Calonogol iawn yw gweld yr adrannau 'ynghylch y dystiolaeth' o dan bob un o'r 19 sbardun, lle mae rhai awduron wedi nodi bylchau data yn hwylus, a dylid annog eraill i wneud yr un peth. Mae hwn yn adnodd defnyddiol dros ben a gellid ei goladu a'i grynhai i gyfodod bylchau data o'r gwahanol agweddau ar y gwaith er mwyn deall yr hyn y gallai fod ei angen yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir - h.y. beth sydd ar goll sy'n bwysig yn awr ar gyfer llywio datblygiad y Cynllun, beth fyddai'n dda ei ddatblygu yn y tymor canol a beth yw'r materion data yn y tymor hwy.

Byddai hyn yn galluogi'r BGC i adeiladu ar waith presennol a chynllunio ar gyfer gwella ansawdd data yn ystod y flwyddyn nesaf a'r tu hwnt, gan helpu partneriaid y BGC i sicrhau bod ymchwil a rheoli data wedi'u mewnosod i'w cynlluniau busnes a chorfforaethol. Byddai hefyd yn rhoi syniad i Lywodraeth Cymru, y Swyddfa ac Uned Ddata Cymru ynghylch anghenion y BGC.

## 12. Defnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy

Mae'r canllawiau statudol yn gosod cyfrifoldeb ar y BGCau i *fwyafu* eu cyfraniad i'r nodau llesiant trwy ddefnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu dull o weithio. Rydym wedi bod yn awyddus i ddeall sut mae egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio wedi cael eu defnyddio yn ystod asesiadau llesiant.

Mae'n wirioneddol dda gweld yr ymagwedd a fabwysiadwyd yn y cyflwyniad, lle rhoddwyd ystyriaeth glir i sut mae cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio i'r asesiad ei hun. Gellid datblygu hyn ymhellach yn yr asesiad terfynol er mwyn cyfleu sut mae hynny wedi newid yr ymagwedd o'r dulliau 'traddodiadol' blaenorol o ddatblygu tystiolaeth ac ymgynghori ynghylch llesiant. Pa werth ychwanegol ddeilliodd o ddefnyddio'r pum dull o weithio? Byddai hyn yn helpu sefydliadau y BGC i ddechrau deall gwerth defnyddio'r ymagwedd hon fel dull gweithredu'r bartneriaeth.

Mae'n amlwg bod yna weithgareddau sy'n arddangos egwyddor datblygu cynaliadwy ac sydd ymhlyg yn yr ymagwedd a ddefnyddiwyd, ac mae'r gweithgareddau hyn yn dangos dealltwriaeth o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a'i bwriadau:

*Tymor hir* – trwy'r adran Rhagolygon i'r Dyfodol (gweler y sylwadau ym mhwynt 9)

*Ymgyfraniad* - trwy'r gwaith ymgynghori a wnaed ac sydd ar waith ar hyn o bryd (gweler pwynt 7)

*Cydweithio* - trwy'r gwaith gyda phartneriaid statudol ac eraill (gweler pwynt 7)

*Integreiddio* - gallai'r BGC ymchwilio ymhellach i'r mater hwn (gweler pwyntiau 2 ac 8)

Er bod sôn am ataliaeth yng nghyd-destun ymyrraeth yn y blynyddoedd cynnar a'r amgylchedd, byddai'r Asesiad yn elwa o ddisgrifio sut mae'r agenda ataliol yn hollbwysig i gynllunio llesiant a darparu gwasanaethau cyhoeddus.

### 13. Edrych ymlaen at gynhyrchu'r cynllun

Mater hollbwysig i'n hadolygiad o'r asesiad hwn oedd ystyried a oedd y dogfennau'n eglur ynghylch sut byddai'r gwaith yn cael ei symud yn ei flaen i ddatblygu amcanion lleol a chynhyrchu cynllun.

Mae hwn yn faes lle gellid cryfhau'r asesiad. Er bod rhagair y Cadeirydd yn rhoi amcan o ddiben yr asesiad, credwn fod angen i'r dogfennau fod yn fwy eglur ynghylch y canlynol: y camau nesaf; sut gall unigolion a sefydliadau barhau i gymryd rhan; yr amserlen ar gyfer ymgysylltu a chyfrannu; a'r hyn y mae'r Cynllun yn bwriadu ei wneud.

Hefyd, mae'r Cynllun yn cael ei fframio ar hyn o bryd fel un sydd â 'nifer fach o amcanion' ond ar yr un pryd, mae'n awgrymu bod hon yn broses agored, â nifer helaeth o sbardunau sylfaenol ac eilaidd. Os bwriedir cyfyngu ar amcanion, dylai'r BGC egluro'r rhesymeg y tu ôl i'r ymagwedd hon. Yn bwysicach, mae angen i'r eglurhad hwn gyfleu sut bydd y deunydd a gasglwyd yn yr asesiad yn cael ei ddefnyddio i lunio amcanion ar gyfer y BGC.

### 14. Trosolwg

Mae'r dadansoddiad dogfennol uchod wedi nodi nifer o feysydd lle credwn y gallai'r asesiad gael ei gryfhau, yn y tymor byr, cyn iddo gael ei gyhoeddi ac yn y tymor canol wrth i'r dadansoddiad o'r ymateb ddatblygu ac wrth i'r Cynllun gael ei gynhyrchu. Ar ben hynny, trefnwyd galwad ffôn i ni fedru trafod yr asesiad gydag aelodau o dîm y BGC oedd wedi ymwneud â'r broses. Bwriad yr alwad ffôn oedd rhoi cyfle i ni egluro/archwilio materion arbennig a amlygwyd yn ein hadolygiad cychwynol a galluogi'r BGC i roi sylw i faterion sy'n rhan o gyd-destun ehangach cynhyrchu'r asesiad.

Mae nifer o themâu eang, cylchol clir wedi dod i'r amlwg o'n hadolygiad a'n sgwrs. Mae'n amlwg i hon fod yn dasg anferthol dros gyfnod cymharol fyr o amser, a bod y partneriaid wedi gwneud ymdrech fawr i lunio'r asesiad drafft. Mae'r fframwaith sydd wedi'i roi ar waith i gasglu gwybodaeth ar draws y bartneriaeth, a'r dechrau a wnaed o ran datblygu'r adnodd hwn, wedi creu argraff arnom.



Credwn fod angen mynd i'r afael â'r materion canlynol er mwyn gwella'r asesiad;

*cyd-destun strategol* – disgrifiad ehangach o'r heriau llesiant sy'n wynebu Abertawe yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir er mwyn rhoi'r chwe thema a'r 19 sbardun yn eu cyd-destun

*ardal a lle* – i ategu'r 19 sbardun, mae angen adfyfrio mwy ar lesiant mewn rhannau penodol o Abertawe, er mwyn i'r materion allweddol i lesiant mewn gwahanol leoliadau gael eu hamlygu'n well, ynghyd â'r asedau a'r anghydraddoldeb ar draws yr ardal.

*arwyddocâd y data* - mwy o eglurhad ynghylch arwyddocâd y data a'r heriau allweddol i lesiant ar draws yr 19 sbardun.

*heriau* - darparu dadansoddiad cliriach o'r heriau (a'r cyfleoedd) sy'n wynebu llesiant yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir

*cyd-destun rhanbarthol* - gwell dealltwriaeth o gyberthynas Abertawe ag awdurdodau (a BGCau) cyfagos a phrosiect Dinas-ranbarth Bae Abertawe.

*tueddiadau'r dyfodol* – rhoi mwy o sylw i effaith bosibl tueddiadau tymor hir ar lesiant yn Abertawe gyfan a'i chymunedau

*symud ymlaen* – rhoi disgrifiad eglurach o'r modd y bwriedir defnyddio data'r asesiad, sut bydd bylchau data'n cael eu rheoli a sut bydd cynllunio llesiant yn symud yn ei flaen

Cydnabyddir y gellir mynd i'r afael â rhai o'r rhain yng ngweithgareddau arfaethedig y BGC rhwng nawr ac adeg cyhoeddi'r asesiad yn derfynol.

Gobeithiwn y bydd y materion a godwyd uchod yn llywio'r cydweithio hwn fel bod yr elfennau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n gryfach gan y BGC yn yr Asesiad Llesiant terfynol a thrwy gydol y broses cynllunio llesiant.